

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Panel Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Fercher, 26 Medi 2018 yn Neuadd Pentref Y Groeslon**

**Minutes of the Consulting Panel held Wednesday, 26 September 2018 at Groeslon Village Hall**

## **Yn bresennol - Present**

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Alun Wyn Jones; Gwyn Owen Jones; Hywel J Owen; Eddie Willcox, Clive Bayley; David C Davies; Helen Hughes

Caryl Lewis, Cwmni Celyn

David Roberts Clerc y Cyngor / Council Clerk

Huw Roberts, Cyfiethydd/Translator

## **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome**

Agorwyd y cyfarfod gan Cadeirydd y Panel Cyng. Gwyn Owen Jones. Diolchodd i bawb am fynychu. Croesawodd Caryl Lewis o Gwmni Celyn. Hefyd croesawodd y cyfiethydd, Huw Roberts

*Clir Gwyn Owen Jones chaired the Panel. He went straight to the evenings business*

## **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Cyng. Gerwyn Owen

## **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

*No declaration of interest was made by those present*

## **4 Y Cam Nesaf / Next Step**

Croesawodd y Cadeirydd Caryl Lewis o Gwmni Celyn oedd yn arbenigo yn y maes marchnata

Gofynnwyd i Caryl am ei sylwadau ynglŷn yr holiadur drafft.

Sylwadau CL-

Holiadur yn fan cychwyn da

Ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r gymuned yn ddisgwyliad bellach ar gynghorau.

Cyngor hwn ar y blaen

I fod yn broses parhaus.

Angen cytuno ar ddull dosbarthu

Angen dod ar fater i sylw Cyngor Gwynedd. Canlyniad yr ymgynghoriad efallai o fydd i CG

Angen defnyddio "surveymonkey" neu "limemonkey" ar gyfer holiadur electroneg. Yn ffafrio "limemonkey".

Bydd angen llythyr blaen i egluro beth ydi gwaith y Cyngor. Angen l'r gymuned wybod fod y Cyngor yma i'w gwasanaethu.

Angen ystyried yn ofalus defnyddio "Facebook". Gwell ystyried yn y lle cyntaf agor tudalen "Facebook" ar gyfer gyhoeddi digwyddiadau yn unig ac ddim i dderbyn sylwadau. Hyn yn medru bod yn gam negyddol.

Gellir disgwyl "return rate" o 30%.

Yn awgrymu gofyn i'r ysgolion cynradd ddsbarthu amlen i bob plentyn

Yn awgrymu defnyddio'r rhestr etholiadol

Bydd holiaduron ar gael ar y gwefan i'w lawr lwytho

AWJ - tydi'r rhestr etholiadol ddim yn cynnwys pobol ifanc dan 18 oed. Angen eu cynnwys

### **Dosbarthu-**

Sylwadau Aelodau -

EW –

wedi gwneud costiau ar sail 1250 o anheddau. Gellir disgwyl costau o £300 am y dychweliadau ac £1000 am anfon allan trwy ddefnyddio gwasanaeth y Post Brenhinol

- gellir prynu gwasanaeth gyda'r Swyddfa Bost i argraffu cyfeiriadau, neu gellir cael meddalwedd i wneud y gwaith
- yn gwybod fod yna griw yn y Fron fyddai'n fodlon dosbarthu i arbed costau. Gellir cyrraedd hyd at 80% o anheddau yn y Fron.

Clerc yn mynegi pryder ynglŷn y syniad o ddsbarthu trwy law. Yn ardal eang. Beth am y tai ar ymylon y pentrefi? Oes digon o wirfoddolwyr? Oherwydd yr amserlen dynn ydi pawb yn medru dosbarthu gyda'i gilydd.

Aelodau yn fodlon dosbarthu'r holiadur trwy law. Yn derbyn bydd rhaid talu am ddychwelyd yr holiaduron.

AWJ yn awgrymu argraffu hyd at ddau gant o amlenni ychwanegol rhag ofn fod yna ofyn amdanynt ar y drws wrth dosbarthu.

### ***Argymhelliad yr Aelodau –***

***Fod yr Aelodau yn dosbarthu'r holiadur trwy law, ond yn gofyn i Caryl Lewis ymchwilio i gost dosbarthu trwy ddefnyddio'r Post Brenhinol***

### ***Recommendation –***

***For members to distribute the questionnaires by hand, but saked Caryl ewis t make enquiries regarding the costs of sending out via Royal Mail.***

### **Pwrpas a Nòd -**

CL - angen ystyried cynllunio am y tair mlynedd nesaf felly angen cael yr holiadur yn gywir.

AWJ – ddim am fod yn rhwystredig am gyfnod penodol, yn fater parhaus.

EW - angen ei gael yn gywir gyda chyfarfodydd cyhoeddus parhaus fel dilyniant.

### **Yr holiadur**

Awgrymwyd addasiadau gan HH. Dosbarthwyd copi o bob aelod gyda'r addasiadau. CL wedi cael copi i gynnwys yr addasiadau.

CL i ddsbarthu copi o'r holiadur wedi ei addasu i'r Clerc cyn cyfarfod nesaf o'r Panel

### **Taflen Blaen**

CL - angen penderfynu ar y cynnwys. Cadw'n gryno. Peidio â'i argraffu gyda gormod o "glos" rhag ofn i'r Cyngor cael feirniadaeth o wastraffu arian, ond yn cytuno fod angen iddo edrych yn broffesiynol.

HH - angen cynnwys y gyllideb ond peidio defnyddio'r gair "praesept". Yn ddryslyd i rai pobol.

CB – gofyn i Uned Argraffu Cyngor Gwynedd am bris.

### **Amserlen**

Bydd angen y canlyniad erbyn y Nadolig fel bo'r Cyngor yn penderfynu ar y gyllideb yn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn Ionawr 2019

Dywedodd CL y byddai'n cynnig addasiadau i'r holiadur ac y byddai hynny yn barod erbyn 17 Hydref, ynghyd a phris dosbarthu.

Byddai'r holiadur yn cael ei ddsbarthu cychwyn fis Hydref gydag amserlen o 14 diwrnod i'r gymuned ymateb, erbyn dywed canol fis Tachwedd.

### **Y cam nesaf**

Cyfarfod o'r Panel 17 Hydref 2018

#### **Rhaglen y Cyfarfod –**

- **Cadarnhau holiadur terfynol - CL i anfon yr holiadur drafft i'r Clerc ymlaen llaw**
- **Cadarnhau dull dosbarthu**
- **Cadarnhau'r amserlen**
- **Penderfynu ar y cynnwys y llythyr blaen**

<b>Daeth y cyfarfod i ben am 8:05 yr hwyr / Meeting closed at 8.05pm</b>
--

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>	
<b>Dyddiad -</b>	